Rhestr Termau Rheoleiddio

Rhestr Termau Rheoleiddio

Mae cymwysterau yn eu hanfod yn dechnegol. Er mwyn eu gwneud ychydig yn gliriach, dyma ganllaw i'r termau mwyaf cyffredin a ddefnyddir.

Term / Ymadrodd	Diffiniad
Adolygiad Sector	Adolygiad i ymchwilio i effeithiolrwydd cymwysterau a'r system gymwysterau fel arfer o fewn sector cyflogaeth penodol.
Amodau Cydnabod	Yr holl amodau y mae cydnabyddiaeth corff dyfarnu yn ddarostyngedig iddynt (gan gynnwys Amodau Safonol a osodir o dan Atodlen 3 i Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015).
Amodau Cydnabod Safonol	Mae'r Amodau Cydnabod Safonol yn cynnwys y rheolau y mae'n rhaid i bob corff dyfarnu a'u cymwysterau eu bodloni wrth gynnig cymwysterau i ddysgwyr yng Nghymru. Mae gan bob corff dyfarnu a reoleiddir ofyniad cyfreithiol i gydymffurfio â'r rheolau hyn yn barhaus. Yn ogystal â'r amodau cyffredinol hyn, mae gennym bwerau i osod amodau ar gyfer cymwysterau penodol, disgrifiadau o gymwysterau a chyrff dyfarnu.
Amodau Cymeradwyo	Pob amod cymeradwyo y mae cymhwyster yn ddarostyngedig iddo, fel y'i gosodir o dan adran 22 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015.
Asesiad Effaith Rheoleiddiol	Mae Asesiadau Effaith Rheoleiddiol yn offerynnau i asesu effaith bosibl camau rheoleiddio arfaethedig ar randdeiliaid ac mae'n cynnwys dadansoddiad o opsiwn o beidio â chymryd unrhyw gamau/ymyriadau rheoleiddio pellach. Mae'r asesiad yn ystyried yr effeithiau andwyol, y costau, y manteision a'r risgiau i helpu i lywio ein penderfyniadau.
Asesu	Dull o werthuso, profi, mesur a dogfennu'r broses o gaffael meysydd penodol o wybodaeth, sgiliau a/neu ddealltwriaeth dysgwyr.
Asesydd	Person sy'n ymgymryd â gwaith marcio neu'r gwaith o adolygu'r marcio gan ddefnyddio set benodol o feini prawf i lunio barn ynghylch lefel cyrhaeddiad dysgwr wedi dangos mewn asesiad, fel y'i diffinnir yn Adran J o'r Amodau Cydnabod Safonol.

Canolfan	Corff sy'n cyflenwi asesiadau (a gweithgareddau eraill o bosibl) i ddysgwyr ar ran corff dyfarnu. Bydd canolfannau fel arfer yn sefydliadau addysgol, darparwyr hyfforddiant, neu gyflogwyr.
Corff Dyfarnu	Sefydliad sy'n datblygu cymwysterau, yn pennu ac yn monitro asesiadau ac yn cyhoeddi dyfarniadau i ddysgwyr, gan gydnabod yn ffurfiol y deilliannau dysgu (gwybodaeth, sgiliau a/neu gymwyseddau), gan ddilyn gweithdrefn asesu a dilysu. Mewn rhannau eraill o'r DU gelwir y rhain yn Sefydliadau Dyfarnu neu'n Fyrddau Arholi.
Corff Dyfarnu Cydnabyddedig	Corff dyfarnu sy'n cael ei gydnabod gennym i ddyfarnu cymwysterau yng Nghymru, yn unol â Rhan 3 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015. Lle rydym yn cyfeirio at "gorff dyfarnu", mae hyn fel arfer yn cyfeirio at gorff dyfarnu cydnabyddedig.
Cydnabyddiaeth	Er mwyn cynnig cymwysterau rheoleiddiedig yng Nghymru, rhaid i gorff dyfarnu gael ei gydnabod gennym ni. Mae angen i gyrff dyfarnu gydymffurfio â'n meini prawf cydnabod a gwneud cais am gydnabyddiaeth. Mae cydnabyddiaeth yn cynnwys cydnabyddiaeth gyffredinol a chydnabyddiaeth sy'n benodol i gymwysterau.
Cydymffurfio	Er mwyn cydymffurfio, rhaid i gorff dyfarnu fodloni ei Amodau Cydnabod a gofynion rheoleiddio eraill a bennir gan Cymwysterau Cymru.
Cyfnod Cymeradwyo/ Dynodi	Yr amser rhwng y Dyddiad Dechrau Dynodi/Cymeradwyo a'r Dyddiad Gorffen Dynodi/Cymeradwyo yr Ardystiad.
Cyfyngiad	Terfyn ar nifer y mathau o gymhwyster blaenoriaethol yr ydym wedi penderfynu y byddwn yn ei gymeradwyo.
Cymeradwyo	Mae cymeradwyo'n broses sydd wedi'i chynllunio i sicrhau bod cymwysterau'n bodloni meini prawf cymeradwyo sy'n benodol i gymwysterau cyn eu bod ar gael i ddysgwyr. Mae'r broses a ddefnyddiwn wrth gymeradwyo cymwysterau wedi'i nodi yn Rhan 4 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015.
Cymhwyster	Dyfarniad a wnaed gan gorff dyfarnu i ddangos cyflawniad cymhwysedd dysgwr. Yng nghyd-destun Deddf Cymwysterau Cymru 2015, mae'n cyfeirio'n benodol at gymwysterau academaidd neu alwedigaethol a ddyfernir yng Nghymru, ac

	eithrio gradd sylfaen, gradd gyntaf neu radd ar lefel uwch, fel y'i diffinnir yn adran 56 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015.
Cymhwyster Cyffredinol (GQ)	Cymwysterau sy'n cael eu hastudio fel arfer gan ddysgwyr yn yr ysgol neu'r coleg fel rhan o'u haddysg statudol neu addysg bellach. Mae hyn yn cynnwys TGAU, UG a Safon Uwch a chymwysterau eraill sy'n rhannu rhai o'r nodweddion sy'n gyffredin i gymwysterau TGAU a Safon Uwch. CBAC yw prif ddarparwr y cymwysterau hyn yng Nghymru, er bod rhai hefyd yn cael eu cynnig gan gyrff dyfarnu eraill.
Cymwysterau Blaenoriaethol	Cymhwyster sydd wedi'i gynnwys ar y Rhestr Cymwysterau Blaenoriaethol, neu gymhwyster sydd o ddisgrifiad sydd wedi'i gynnwys ar y rhestr, fel y'i diffinnir yn isadran 13(6) o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015.
Cymwysterau Blaenoriaethol Cyfyngedig	Cymhwyster blaenoriaethol yr ydym wedi nodi y byddwn ond yn cymeradwyo uchafswm nifer penodedig o ffurfiau ar y cymhwyster (a all fod yn un neu fwy), am gyfnod o amser, yn unol ag adran 14 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015.
Cymwysterau cyfrwng Cymraeg	Cymwysterau lle mae unrhyw asesiad sydd i'w gwblhau gan ddysgwr ar gael iddyn nhw yn Gymraeg. Mae hyn yn golygu pob rhan o'r asesiad, fel unedau neu gydrannau, ac ym mha bynnag fformat, boed yn bapur neu'n ddigidol.
Cymwysterau cymeradwy	Cymwysterau rheoleiddiedig sy'n gymwys i'w defnyddio ar raglenni dysgu a ariennir yn gyhoeddus yr ydym wedi'u cymeradwyo o dan Ran 4 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015. Dim ond yng Nghymru y dyfernir cymwysterau cymeradwy, a byddant wedi bodloni ein meini prawf cymeradwyo cadarn sy'n sicrhau eu bod wedi'u cynllunio i ddiwallu anghenion dysgwyr yng Nghymru. Bydd cymwysterau cymeradwy wedi cael rhif cymeradwyo penodol, ac maent yn gysylltiedig â chymwysterau ar y Rhestr Cymwysterau Blaenoriaethol.
Cymwysterau Dynodedig	Cymwysterau rheoleiddiedig a ddynodir gennym ni sy'n gymwys i'w defnyddio ar raglenni dysgu ar gyfer dysgwyr o dan 19 oed a ariennir yn gyhoeddus, fel y'u diffinnir o dan adran 29 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015. Rydym yn ystyried nifer o faterion wrth benderfynu a ddylid dynodi cymwysterau ai peidio.

Cymwysterau Galwedigaethol (VQ)	Cymwysterau sy'n cael eu dyfarnu a'u hardystio gan gorff dyfarnu, a gymerir gan ddysgwyr o 14 oed i fyny, ac sy'n asesu gwybodaeth, dealltwriaeth a/neu sgiliau sy'n ymwneud yn benodol â byd gwaith.
Cymwysterau Rheoleiddiedig	Pob cymhwyster nad yw'n radd (boed wedi ei gymeradwyo, ei ddynodi neu'n gymwysterau rheoleiddiedig eraill) a gynigir i'w ddyfarnu gan gorff dyfarnu a gydnabyddir gennym (oni bai bod corff dyfarnu naill ai wedi ildio ei gydnabyddiaeth mewn perthynas â'r cymhwyster hwnnw, neu os yw corff dyfarnu wedi eithrio'r cymhwyster hwnnw o gwmpas ei gydnabyddiaeth drwy hysbysu Llywodraeth Cymru cyn 21 Medi 2015). Gall Cymwysterau Cymru hefyd ddirymu cymwysterau.
Cymwysterau rheoleiddiedig eraill	Mae tri math o gymwysterau rheoleiddiedig – Cymeradwy, Dynodedig ac Eraill. Cymwysterau rheoleiddiedig eraill yw cymwysterau a gynigir yng Nghymru gan gyrff dyfarnu cydnabyddedig, nad ydynt wedi'u dynodi na'u cymeradwyo gennym ni, ac nad yw cyrff dyfarnu wedi eu hildio na'u heithrio o gwmpas eu cydnabyddiaeth.
Cymwysterau yng Nghymru (QiW)	Mae'r system technoleg gwybodaeth Cymwysterau yng Nghymru (QiW) a ddarperir gan Cymwysterau Cymru yn ffynhonnell gynhwysfawr o wybodaeth am gymwysterau cymeradwy, dynodedig a chymwysterau rheoleiddiedig eraill sydd ar gael i ddysgwyr yng Nghymru.
Cynnal Safonau	Rydym yn goruchwylio'r broses o bennu a chynnal safonau priodol mewn cymwysterau TGAU, Safon Uwch a chymwysterau tebyg o un gyfres ddyfarnu i'r nesaf. Ar gyfer cymwysterau sy'n cael eu rheoleiddio ochr yn ochr â rheoleiddwyr cymwysterau eraill y DU, rydym yn gweithio'n agos gyda nhw i gytuno ar safonau cyffredin.
Datganiad Cydymffurfiaeth	Datganiad blynyddol y mae'n ofynnol i bob corff dyfarnu cydnabyddedig ei gyflwyno i ni am eu hasesiad o lefel eu cydymffurfiaeth â'r Amodau Cydnabod Safonol.
Deddf Cymwysterau Cymru 2015	Pasiwyd Deddf Cymwysterau Cymru 2015 gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar y pryd ym mis Awst 2015 a sefydlodd Cymwysterau Cymru. Mae'r Ddeddf yn nodi, ymhlith pethau eraill, ein prif nodau, ein cyfrifoldebau a'n pwerau.

Dogfen reoleiddiol	Fel y'i diffinnir at ddibenion ein Hamodau Cydnabod Safonol, dogfen reoleiddio, neu ran o ddogfen reoleiddio, sy'n ymddangos mewn dogfen o'r enw 'Rhestr o Ddogfennau Rheoleiddio', y gellir ei chyhoeddi gennym ni.
Dyddiad Dechrau Dynodi/ Cymeradwyo	Dechrau'r cyfnod dynodi/cymeradwyo a'r dyddiad cyntaf y gall dysgwr ddechrau cwrs sy'n arwain at gymhwyster sy'n gymwys i'w ddefnyddio ar raglenni dysgu a ariennir yn gyhoeddus ar gyfer dysgwyr o dan 19 oed.
Dyddiad Dechrau Dynodi/ Cymeradwyo Hwyraf Sydd Fwyaf Tebygol i Ddysgwr	Y dyddiad cyntaf y gall dysgwr ddechrau cwrs sy'n arwain at gymhwyster sy'n gymwys i'w ddefnyddio ar raglenni dysgu a ariennir yn gyhoeddus ar gyfer dysgwyr o dan 19 oed, sy'n seiliedig ar fodel darparu fwyaf tebygol.
Dyddiad Gorffen Dynodi/ Cymeradwyo yr Ardystiad	Diwedd y cyfnod dynodi/cymeradwyo a'r dyddiad olaf y gall dysgwr gael ei ardystio am gymhwyster sy'n gymwys i'w ddefnyddio ar raglenni dysgu a ariennir yn gyhoeddus ar gyfer dysgwyr dan 19 oed; mae hyn yn cynnwys ailsefyll.
Dyddiad Gorffen Rheoleiddio	Y dyddiad olaf y byddai Cymwysterau Cymru yn rheoleiddio'r cymhwyster.
Dysgwr/Dysgwyr	Term diffiniedig yw hwn yn yr Amodau Cydnabod ac fe'i defnyddir hefyd mewn dogfennau rheoleiddio eraill i olygu'r canlynol: Person sy'n ceisio cael, neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo geisio cael, cymwysterau.
Effaith andwyol	At ddibenion ein Hamodau Cydnabod Safonol, mae gweithred, hepgoriad, digwyddiad neu amgylchiad yn cael effaith andwyol os yw'n: (a) arwain at ragfarn yn erbyn dysgwyr neu bersonau sy'n debygol o ddod yn ddysgwyr; neu (b) effeithio'n andwyol ar y canlynol: (i) gallu'r corff dyfarnu i ddatblygu, cyflwyno neu ddyfarnu cymwysterau yn unol â'i Amodau Cydnabod Safonol; (ii) safonau'r cymwysterau y mae'r corff dyfarnu yn eu darparu neu y mae'n bwriadu eu darparu; neu (iii) hyder y cyhoedd mewn cymwysterau a/neu system gymwysterau Cymru.

Meini Prawf Cydnabod	Meini prawf a bennir ac a gyhoeddir gennym yn unol ag adrannau 5 a 6 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015, y mae'n rhaid i gyrff dyfarnu eu bodloni er mwyn cael eu cydnabod gennym ni. Mae meini prawf cydnabod yn cynnwys cydnabyddiaeth gyffredinol a chydnabyddiaeth sy'n benodol i gymwysterau.
Meini prawf cydnabod cyffredinol	Meini prawf a bennir ac a gyhoeddir gennym at ddibenion cydnabod corff dyfarnu yn gyffredinol, yn unol ag is-adran 5(1) o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015.
Meini prawf cydnabod sy'n benodol i gymwysterau	Meini prawf a bennir ac a gyhoeddir gennym i'w cymhwyso at ddibenion cydnabod corff dyfarnu o ran cymhwyster penodol, yn unol ag is-adran 6(1) o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015.
Meini prawf cymeradwyo	Y meini prawf yr ydym yn eu defnyddio wrth benderfynu a ddylid cymeradwyo math o gymhwyster, ac a gyhoeddir yn unol ag adran 20 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015.
Monitro	Gweithgareddau yr ydym yn eu cynnal i adolygu ansawdd systemau, prosesau a/neu gymwysterau corff dyfarnu.
Prif Nodau	Dau brif nod Cymwysterau Cymru, a restrir yn isadran 3(1) o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015: • sicrhau bod cymwysterau, a system gymwysterau Cymru, yn effeithiol i ddiwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru; a • hyrwyddo hyder y cyhoedd mewn cymwysterau ac yn system gymwysterau Cymru.
Rheoleiddiwr Cymwysterau	Sefydliad sy'n monitro ac yn cynnal safonau ar gyfer cymwysterau allanol, er enghraifft, Cymwysterau Cymru, Ofqual (yn Lloegr), CCEA (yng Ngogledd Iwerddon) a SQA (yn Yr Alban).
Rhestr Cymwysterau Blaenoriaethol	Rhestr o gymwysterau ar gyfer cymeradwyaeth blaenoriaethol, a baratowyd ar y cyd gan Cymwysterau Cymru a Gweinidogion Cymru yn unol ag isadran 13(1) o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015.
Safon Uwch	Tystysgrif Addysg Gyffredinol Safon Uwch, a elwir hefyd yn TAG Safon Uwch. Cymwysterau a astudir ar ôl TGAU mewn ystod o bynciau, a astudir fel arfer gan ddysgwyr 16-18 oed ac fel arfer cwrs astudio dwy flynedd. Maent yn cael eu defnyddio fel sail ar gyfer derbyn myfyrwyr i addysg uwch, hyfforddiant pellach neu fynediad i gyflogaeth.

Senedd Cymru	Mae'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi Cymru ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif. Mae Cymwysterau Cymru yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, yn annibynnol ar y llywodraeth, ac mae'n atebol i Senedd Cymru.
Swyddogion Cyfrifol	Unigolyn a benodwyd i weithredu fel pwynt cyswllt awdurdodol corff dyfarnu ar gyfer Cymwysterau Cymru.
System gymwysterau Cymru	Y system, a gymerir yn ei chyfanrwydd, lle dyfernir cymwysterau i bersonau a asesir yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru at y diben hwn, fel y'u diffinnir yn is-adran 3(3) o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015.
TGAU	Mae Tystysgrifau Cyffredinol Addysg Uwchradd ar gael mewn ystod eang o bynciau. TGAU yw'r prif gymwysterau cyffredinol Lefel 1 a Lefel 2 ar gyfer pobl ifanc 14-16 oed yng Nghymru. Gellir eu defnyddio fel sail ar gyfer symud ymlaen i lefelau pellach ac uwch o astudio neu hyfforddi, neu fynediad uniongyrchol i gyflogaeth.
Trefniadau asesu	Trefniadau ar gyfer asesu sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth berthnasol mewn perthynas â'r cymhwyster, fel y'u diffinnir yn adran 57 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015.
Uwch Gyfrannol (UG)	Cymhwyster Safon Uwch Gyfrannol. Cymhwyster sy'n ffurfio rhan gyntaf cymhwyster Safon Uwch. Gellir ei astudio fel cymhwyster ar wahân. Yng Nghymru a Gogledd Iwerddon, mae'n cyfrannu at ganlyniad y Safon Uwch. Yn Lloegr, ni all cymwysterau UG gyfrannu at y Safon Uwch.